

2019 Rhif (Cy. )

2019 No. (W. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r  
A489 (Y Drenewydd, Powys)  
(Gwahardd Cerbydau rhag cael  
Mynediad a Chyfyngu ar Aros ar  
Gilfannau) 2019

The A483 and A489 Trunk Roads  
(Newtown, Powys) (Prohibition of  
Entry to Vehicles and Restriction of  
Waiting on Lay-bys) Order  
2019

*Gwnaed* 12 Chwefror 2019

*Made* 12 February 2019

*Yn dod i rym* 15 Chwefror 2019

*Coming into force* 15 February 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A483 a'r A489, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A483 and A489 Trunk Roads, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

### Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A489 (Y Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau rhag cael Mynediad a Chyfyngu ar Aros ar Gilfannau) 2019 a daw i rym ar 15 Chwefror 2019.

1. The title of this Order is the A483 and A489 Trunk Roads (Newtown, Powys) (Prohibition of Entry to Vehicles and Restriction of Waiting on Lay-bys) Order 2019 and it comes into force on 15 February 2019.

#### 2. Yn y Gorchymyn hwn:

#### 2. In this Order:

ystyr "cerbyttffordd" ("carriageway") yw ffordd ar gyfer traffig sy'n ffurfio priffordd neu'n cynnwys priffordd, sy'n ffordd (heblaw trac beiciau) y mae gan y cyhoedd hawl dramwy drosti drwy fynd â cherbydau ar ei hyd;

"carriageway" ("cerbyttffordd") means traffic way constituting or comprised in a highway, being a way (other than a cycle track) over which the public have a right of way for the passage of vehicles;

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cilfan” (“*lay-by*”) yw unrhyw ran o’r gefnffordd a fwriedir fel man aros i gerbydau ar ymyl y gefnffordd a ffin gyfan neu rannol iddi o farciau ffordd o’r math a welir yn niagram 1010 o Ran 4 o Atodlen 11 i Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddydau Cyffredinol 2016;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion a Cefnffordd yr A489 y Drenewydd i Aberystwyth.

### Gwahardd Mynediad

3. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael mynediad i ben gorllewinol y gilfan ar gerbyttffordd tua’r gorllewin Cefnffordd yr A483 sydd 601 o fetrau i’r gorllewin o Gylchfan Pool Road.

4. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael mynediad i ben dwyreiniol y gilfan ar gerbyttffordd tua’r dwyrain Cefnffordd yr A489 sydd 408 o fetrau i’r gorllewin o Gylchfan Ffordd Dolfor.

### Cyfyngu ar Aros

5. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y cilfannau a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn am gyfnod sy’n fwy na 4 awr, gyda dim dychwelyd o fewn cyfnod o 4 awr, ar unrhyw ddiwrnod.

### Esemptiadau

6. Ni fydd dim yn erthygl 5 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y cilfannau’r cefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy’n angenrheidiol i alluogi:

- (a) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o’r gweithrediadau a ganlyn:
  - (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
  - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
  - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r cefnffordd a/neu’r cilfannau; neu
  - (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, y cilfannau hynny, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y’i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(3);

“lay-by” (“*cilfan*”) means any area of the trunk road intended for the waiting of vehicles, which are situated at the side of the trunk road bounded either wholly or partly by road markings of the type shown in diagram 1010 of Schedule 11, part 4 to The Traffic Signs Regulations and General Directions 2016(2);

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the relevant lengths of the A483 Swansea to Manchester Trunk Road and the A489 Newtown to Aberystwyth Trunk Road.

### Prohibition of Entry

3. No person may cause or permit any vehicle to enter the western end of the lay-by on the westbound carriageway of the A483 Trunk Road situated 601 metres west of Pool Road Roundabout.

4. No person may cause or permit any vehicle to enter the eastern end of the lay-by on the eastbound carriageway of the A489 Trunk Road situated 408 metres west of Dolfor Road Roundabout.

### Restriction of Waiting

5. Except as provided in article 6, no person may cause or permit any vehicle to wait on the lay-bys specified in the Schedule to this Order for a period exceeding 4 hours, with no return within 4 hours.

### Exemptions

6. Nothing in article 5 renders it unlawful to cause or permit any vehicle to wait on the lay-bys specified in the Schedule to this Order for so long as may be necessary to enable:

- (a) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:
  - (i) building, industrial or demolition operations;
  - (ii) the removal of any obstruction to traffic;
  - (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the trunk roads and/or lay-bys; or
  - (iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to, the said lay-bys of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(3);

(2) O.S. 2016/362.

(3) 2003 p.21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(2) S.I. 2016/362.

(3) 2003 c.21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c.30).

- (b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;
- (c) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y cefnffyrdd neu'n gyfagos iddynt;
- (d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu;
- (e) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:
  - (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
  - (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
  - (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
  - (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

- (b) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;
- (c) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the trunk roads;
- (d) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes;
- (e) the vehicle to stop when the person in control of it:
  - (i) is required by law to stop;
  - (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
  - (iii) is prevented from proceeding; or
  - (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dyddiedig

12 Chwefror 2019

Dated

12 February 2019

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

## YR ATODLEN

## SCHEDULE

### CYFYNGU AR AROS (CYFYNGIR Y CYFNOD AROS I 4 AWR MEWN UNRHYW GYFNOD O 8 AWR)

### RESTRICTION OF WAITING (LIMITED TO 4 HOURS IN ANY PERIOD OF 8 HOURS)

- i. Cilfan cerbyttfordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 404 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pool Road hyd at bwynt 601 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pool Road.
- ii. Cilfan cerbyttfordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o bwynt 408 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Ffordd Dolfor hyd at bwynt 622 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Ffordd Dolfor.

- i. The A483 Trunk Road westbound carriageway lay-by that extends from a point 404 metres west of Pool Road Roundabout to a point 601 metres west of Pool Road Roundabout.
- ii. The A489 Trunk Road eastbound carriageway lay-by that extends from a point 408 metres west of Dolfor Road Roundabout to a point 622 metres west of Dolfor Road Roundabout.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A483 A'R  
A489 (Y DRENEWYDD, POWYS) (GWAHARDD  
CERBYDAU RHAG CAEL MYNEDIAD A  
CHYFYNGU AR AROS AR GILFANNAU) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 15 Chwefror 2019.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd cerbydau rhag cael mynediad i ben gorllewinol y gilfan ar gerbyttfordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A483 sydd 601 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pool Road, a phen dwyreiniol y gilfan ar gerbyttfordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A489 sydd 408 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Dolfor Road. Bydd y Gorchymyn hefyd yn cyfyngu'r cyfnod aros i 4 awr ar y mwyaf gyda dim dychwelyd o fewn 4 awr ar y darnau o'r cilfannau a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 15 Chwefror 2019, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol, yn Llywodraeth Cymru, Tŷ Ladywell, y Drenewydd, Powys SY16 1JB ac yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell y Drenewydd, Park Lane, y Drenewydd, Powys SY16 1EJ neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1366584.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 15 Chwefror 2019, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig parhaol/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**THE A483 AND A489 TRUNK ROADS  
(NEWTOWN, POWYS) (PROHIBITION OF  
ENTRY TO VEHICLES AND RESTRICTION  
OF WAITING ON LAY-BYS) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under sections 1(1), 2(1) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 15 February 2019.

The effect of the Order will be to prohibit vehicles from entering the western end of the lay-by on the westbound carriageway of the A483 Trunk Road situated 601 metres west of Pool Road Roundabout and the eastern end of the lay-by on the eastbound carriageway of the A489 Trunk Road situated 408 metres west of Dolfor Road Roundabout. The Order will also restrict waiting to a maximum duration of 4 hours with no return within 4 hours on the lengths of the lay-bys specified in the Schedule to this Notice.

During a period of 6 weeks from 15 February 2019 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal office hours at the Welsh Government, Ladywell House, Newtown, Powys SY16 1JB and normal opening hours at Newtown Library, Park Lane, Newtown, Powys SY16 1EJ, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1366584.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- a. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- b. that any of the relevant requirements has not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 15 February 2019, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2019).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

**YR ATODLEN**

**CYFYNGU AR AROS (CYFYNGIR Y CYFNOD  
AROS I 4 AWR MEWN UNRHYW GYFNOD O 8  
AWR)**

- i. Cilfan cerbyttfordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 404 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pool Road hyd at bwynt 601 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pool Road.
- ii. Cilfan cerbyttfordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o bwynt 408 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Ffordd Dolfor hyd at bwynt 622 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Ffordd Dolfor.

**SCHEDULE**

**RESTRICTION OF WAITING (LIMITED TO 4  
HOURS IN ANY PERIOD OF 8 HOURS)**

- i. The A483 Trunk Road westbound carriageway lay-by that extends from a point 404 metres west of Pool Road Roundabout to a point 601 metres west of Pool Road Roundabout.
- ii. The A489 Trunk Road eastbound carriageway lay-by that extends from a point 408 metres west of Dolfor Road Roundabout to a point 622 metres west of Dolfor Road Roundabout.